

# Archifau Morgannwg

## ~COFNODION MORWROL~

Mae Archifau Morgannwg yn cadw llawer o gofnodion yn ymwneud â llongau a'u criwiau, sy'n dyddio yn ôl i ddechrau'r 19eg ganrif. Yn ystod y cyfnod hwn, Caerdydd oedd un ddinasoedd mwyaf ffyniannus Prydain oes Fictoria. Roedd yna alw mawr am lo o gymoedd diwydiannol Morgannwg, gyda llawer ohono'n cael ei allforio o Gaerdydd. Ym 1913, allforiwyd 13.7 miliwn tunnell o lwythi o'r ddinas, ac roedd 10.5 miliwn ohono'n lo. Roedd angen llynges fawr o longau a sefydlwyd llawer o fusnesau yng nghanol Butetown yn Nociâu Caerdydd. Datblygwyd dociau yn y Barri pan aeth y diwydiant yn rhy fawr i Butetown yn unig.

### **Dociau a Harbwr**

Mae gwybodaeth ddefnyddiol am ddociau a phorthladdoedd yn y cofnodion canlynol.

### ***Cofnodion y Llys Chwarter***

**QDP**

Rhoddwyd y 'Cynlluniau adnau' yn nwylo Clerc Heddwch pob sir ym 1792 a'u cyflwyno gerbron y Senedd wrth wneud cais i adeiladu dociau neu waith cyhoeddus arall a gymeradwyir gan Ddeddf leol.

Bydd cynlluniau'r Arolwg Ordnans yn ddefnyddiol hefyd

### ***Cynlluniau Harbwr Porthcawl***

**UDPC**

Cynlluniau i adeiladu harbwr Porthcawl, a baratowyd gan y peiriannydd o Lundain, RP Brereton, rhwng 1864 a 1866. Agorodd y doc saith erw newydd yng Ngorffennaf 1867. Rhoddwyd y gorau i fasnachu ym 1906. Mae'r casgliad yn cynnwys cynllun cyffredinol o'r harbwr, manylion am y llifddorau a'r morglawdd.

### ***Dociau Caerdydd a Phenarth***

Cynlluniau Dociau Caerdydd a Phenarth 1824-1901

**DDB/4/1-12**

Cynlluniau Dociau Bute Caerdydd ,a Dociau Penarth 1888-1970

**DX683/7**

**DXJO**

Llythyrau gan yr Is-gapten F Dornford, docfeistr yn Nociâu Caerdydd, at Farcwis Bute a'i gynrychiolwyr ynglŷn â'r defnydd cynyddol o'r dociau, trethi a rheoliadau, 1841-1845

### ***Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, 1987-2000***

**DCBDC**

Gellir olrhain datblygiad Dociau Caerdydd trwy gofnodion Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, a sefydlwyd ym 1987 ac a ddaeth i ben yn 2000. Mae'r archifau yn cynnwys cofnodion ac adroddiadau'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, cynlluniau corfforaethol, adroddiadau prisio ac adroddiadau ymgynghorwyr, ac archif ffotograffig yn dangos y morglawdd a gwaith y Gorfforaeth yn mynd rhagddo.

### **Cofnodion Peilotiaeth**

Roedd cychod tywys yn gyfrifol am hebrwng llongau'n ddiogel i mewn ac allan o'r harbwr. Morlywyr cymwys oedd y peilotiaid a ddeuai ar long mewn man arbennig i'w hebrwng i ac o'r porthladd neu drwy sianel, afon neu lwybrau dŵr sy'n arwain at borthladd. Roedd ganddynt wybodaeth leol am

gerrynt, llif, a nodau tir a môr. Mae gan yr Archifdy fanylion am Awdurdod Peilotiaeth y Barri, Awdurdod Peilotiaeth Caerdydd a rhai cofnodion yn ymwneud ag Awdurdod Peilotiaeth De Ddwyrain Cymru, corff a sefydlwyd ym 1974 wrth uno Awdurdodau Peilotiaeth Caerdydd, Casnewydd a'r Barri

### ***Awdurdod Peilotiaeth Caerdydd, 1807-1968***

**DPIL, DX84/1, DX914**

Hyd at 1861 roedd porthladd Caerdydd yn gysylltiedig â phorthladd Bryste o ran peilotiaeth. Fodd bynnag, yn sgil y cynnydd ym mordwyaeth Caerdydd sefydlwyd Bwrdd Peilotiaeth ei hun i Gaerdydd, yn rhydd o reolaeth Bryste, dan Ddeddf Peilotiaeth Môr Hafren 1861. Roedd y Bwrdd gwreiddiol yn cynnwys Maer Caerdydd a chynrychiolwyr o'r Cyngor Tref, ymddiriedolwyr Bute, Cwmni Dociau Penarth a Chwmni Camlas Morgannwg. Nid oedd gan berchnogion llongau a pheilotiaid gynrychiolaeth ar y Bwrdd tan 1880. Yn ystod yr 1890au y gwelwyd y nifer uchaf o beilotiaid gyda 120 o beilotiaid trwyddedig.

Mae'r archifau yn cynnwys llyfrau cofnodion, is-ddeddfau, cofnodion ariannol, gohebiaeth, cofnodion personél a ffotograffau. Yr hyn sy'n arbennig o ddiddorol yw cofrestr genedigaethau, priodasau a marwolaethau peilotiaid Caerdydd, 1810-1971 a chofrestr peilotiaid yn nodi dyddiadau genedigaethau, priodasau, trwyddedau, pensiwn a marwolaethau peilotiaid, a manylion gwragedd a phlant, 1840-1970au. Mae'r casgliad hefyd yn cynnwys rhai cofnodion yn ymwneud â'r Cwmni Llong Peilot Ager a Cymdeithas Peilotiaid Mor Hafren.

### ***Awdurdod Peilotiaeth Y Barri, 1889-1974***

**DXSS/1-13, DX892**

Sefydlwyd Bwrdd Peilotiaeth ar wahân i'r Barri ym 1889. Roedd y Bwrdd yn cynnwys 3 cyfarwyddwr o Gwmni Dociau a Rheilffordd y Barri, a hyd at naw aelod ychwanegol yn cynnwys perchnogion llongau, peilotiaid a chynrychiolydd o'r Bwrdd Masnach. Mae'r archifau yn cynnwys cofnodion cyfarfodydd peilotiaid, datganiadau cyfrifon blynyddol, rheolau, cofrestr trwyddedau, cofrestr prentisiaid, tystysgrifau cyfranddaliadau a ffeiliau.

### ***Cofrestri Llongau, 1824-1994***

**DRBS/C/1-2**

## **Ships and their crews**

### **Llongau a'u criwiau**

Dechreuwyd cofrestru llongau yn ystod y ddeunawfed ganrif, gan ei gwneud hi'n ofynnol i berchnogion llongau gyda dec a llwyth dros 15 tunnell i gofrestru gyda Thollau Tramor a Chartref yn eu porthladd cartref. Mae cofnodion llongau a gofrestrwyd ym Mhorthladd Caerdydd i'w cael yn yr Archifdy. Mae'r cofrestri'n cynnwys manylion am

- feintiau
- perchnogaeth a thrafodion perchnogaeth
- cyfranddaliadau a throsglwyddo cyfranddaliadau
- hanes
- beth ddigwyddodd i'r llong yn y pen draw, yn cynnwys trosglwyddiadau i borthladdoedd cofrestru eraill

ac wedi'u rhoi yn y drefn y cofrestrwyd hwy. Nid ydynt yn cofnodi symudiad y llongau. Mae trosglwyddiadau perchnogaeth wedi'u cofnodi mewn cofrestri trafodion ychwanegol ar gyfer y blynyddoedd 1855-1942. Mae mynegai i enwau llongau ar gael yn y swyddfa.

Mae Ymholiadau Morwrol y Bwrdd Masnach yn cyfeirio at ymchwiliadau a wnaed i ddamweiniau llongau. Daw'r ffeiliau o Sesiynau'r Cwrt Bach (Llys yr Ynadon) yn ymwneud ag achosion a gyfeiriwyd gan y Bwrdd Masnach dan wahanol Ddeddfau Llongau Masnach o 1854. Nid yw'r holl ymchwiliadau'n cyfeirio at longau a gofrestrwyd yng Nghaerdydd, ond cadwyd y cofnodion yn y lle mwyaf cyfleus i dystion eu gweld, sef Neuadd y Ddinas Caerdydd neu'r Llysoedd yn yr achos hwn. Mae gan yr Archifdy ffeiliau ymchwiliadau ac adroddiadau argraffedig am ddamweiniau. Roedd yr ymholiadau'n ymwneud â llongau oedd ar goll neu y tybiwyd eu bod ar goll ac a gofrestrwyd yng Nghaerdydd a phorthladdoedd eraill ym Mhrydain. Roedd llawer yn ymwneud â cholledion a ddigwyddodd ym Môr Hafren, a llongau a gollwyd mewn dyfroedd Ewropeaidd a rhyngwladol. Mae'r ffeiliau'n cynnwys papurau a gasglwyd ar gyfer yr ymchwiliad, ac yn cynnwys tystiolaeth dystion a thrafodion achosion llys. Mae'r rhesymau am ddamweiniau llongau yn amrywio o gynllun llongau, disgyblaeth wael i lwythi peryglus. Mae gan yr Archifdy restr gryno yn rhoi manylion am enwau'r llongau yn ôl trefn y wyddor fesul blwyddyn a lleoliad y damweiniau yn fras. Mae yna fynegai o enwau llongau ar gael hefyd.

***Cytundebau Criwiau a Llyfrau Log Swyddogol, 1863-1913***

***DPROCA/C***

1835, roedd capteiniaid unrhyw longau o Brydain oedd yn mynd ar daith dramor, a chaptainiaid unrhyw longau a gofrestrwyd ym Mhrydain oedd yn pwyso 80 tunnell neu fwy ac yn gysylltiedig â masnach forwrol neu bysgodfeydd, yn gorfod llofnodi cytundeb gyda phob aelod o'r criw. Roedd yn rhaid i'r capten gadw'r ddogfen ar fwrdd y llong, ei chwblhau a'i throsglwyddo i Gofrestrydd Cyffredinol Llongau a Morwyr ar ddiwedd y fordaith. Mae gan yr Archifdy gytundebau criwiau ar gyfer llongau a gofrestrwyd yng Nghaerdydd, er nad oedd llawer o gapteiniaid a chriw y cytundebau hyn yn ddynion lleol. Mewn rhai achosion, ymsefydlodd rhai o'r dynion hyn yng Nghaerdydd, tra roedd eraill yn ymgartrefu mewn llefydd eraill.

Bydd cytundebau criwiau yn nodi

- enw aelod y criw
- oedran
- tref enedigol
- enw'r llong olaf a'i borthladd cofrestru
- dyddiad ymuno â'r llong
- gwaith a chyflog
- enwau prentisiaid
- manylion rhyddhau, dyddiad a lle
- llofnod aelod y criw
- genedigaethau, marwolaethau a phriodasau (os o gwbl) ar fwrdd y llong.

Mae'r cytundeb hefyd yn nodi stampiau dyddiad swyddfeydd conswl y porthladdoedd yr ymwelwyd â hwy ar y daith, sy'n eich galluogi i weld llwybr a hyd y daith benodol.

Mae'r casgliad o gytundebau criwiau hefyd yn cynnwys amrywiaeth o restrï, cyfrifon, tystysgrifau a rhai llyfrau log swyddogol. Capten y llong oedd yn cadw'r llyfr log sef cofnod swyddogol o'r daith, yn rhoi manylion am unrhyw salwch, marwolaeth, aelodau'n gadael, cwynion neu ddigwyddiadau o bwys.

***Casgliadau***

Mae gan yr Archifdy y gyfres gyflawn o gytundebau criwiau ar gyfer llongau a gofrestrwyd yng

Nghaerdydd o 1863 i 1913, ac eithrio

- sampl 10% o bob blwyddyn a ddetholwyd i'w cadw'n barhaol yn yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Richmond, Surrey, TW9 4DU. Dewiswyd cofnodion oedd yn ymwneud â llongau enwog.
- sampl 10% arall i'w gadw yn Adran Lawysgrifau, yr Amgueddfa Forwrol Genedlaethol, Greenwich, Llundain SE10 9NF. Mae'r sampl hwn yn cynnwys yr holl gofnodion (ac eithrio'r 10% o bob blwyddyn sydd gan yr Archifau Cenedlaethol), ar gyfer 1861, 1862, 1875, 1885, 1895, 1905.
- Cytundebau criwiau am y cyfnod 1914-1938 a 1951-1976 – cysylltwch â The Maritime History Group, St. John's Memorial University, Newfoundland, Canada, A1C 5S7.
- Cytundebau criwiau am y cyfnod 1939-1950 ac o 1977 hyd heddiw – cysylltwch â'r Gofrestrfa Llongau a Morwyr, Blwch Post 420, Caerdydd CF24 5XR, ebost [RSS@mcga.gov.uk](mailto:RSS@mcga.gov.uk)

Mae mynegai i gytundebau criwiau i'w cael yn yr Archifdy, neu yn:  
<http://www.angelfire.com/de/BobSanders/Site.html>

Os ydych yn ymchwilio i unigolion penodol, gall y wefan ganlynol fod yn ddefnyddiol:  
<http://www.welshmariners.org.uk/>

If you are researching individuals, you may find the following site useful:

<http://www.welshmariners.org.uk/>

### ***Kara***

**DXGC13**

Dogfennau'n ymwneud â'r brigantîn *Kara*, oedd yn eiddo i Charles Crofts Williams o Roath Court, Caerdydd, 1838-1844

### ***Barrett's Ships' Repairers, c.1880-1901***

**DXOS**

Lluniau o'r cwmni o Ddociau Bute y Dwyrain

## **Trade and Commerce**

### ***Tollau ac Ecseis Caerdydd***

**CLMS/4/266**

Llyfr llythyrau John Byrd, swyddog tollau, 1647/8

**DA**

Gohebiaeth yr Arglwydd Bute yn ymwneud â masnach yn Nociâu Caerdydd c.1830au-1870au

### ***Cardiff Incorporated Chamber of Commerce, 1866-1965***

**DCOM/C**

Sefydlwyd y Siambr Fasnach ym 1866 a'i chorffori ym 1880. Mae'r cofnodion yn ymwneud â sawl sefydliad sy'n gysylltiedig â llongau:

- Cardiff Incorporated Ship-owners Association/Cardiff and Bristol Channel Incorporated Ship-owners Association (sefydlwyd ym 1875, corfforwyd ym 1884)
- Cardiff Institute of Shipbrokers (Incorporated)
- Bristol Channel District Association of Chartered Shipbrokers
- Bristol Channel Association of Shipping and Forwarding Agents/Bristol
- Channel Branch of Institute of Shipping and Forwarding Agents

- Association of British Chamber of Commerce
- South Wales Coal Exporters Association and Colliery Owners Taxation Committee.

Mae'r archifau yn cynnwys llyfrau cofnodion, adroddiadau blynyddol, cofrestri aelodau a chyfres o ffotograffau, yn cynnwys golygfeydd o Ddociau Caerdydd a'r Barri ac aelodau o'r Siambr Fasnach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg

***Cory Brothers and Co. Ltd, 1857-1953***

**DCB**

Gŵr o Ddyfnaint oedd Richard Cory oedd yn berchen ar long fechan. Erbyn 1856, roedd ei ddau fab wedi ymuno ag ef gan fasnachu fel broceriaid llongau, perchnogion llongau, gwerthwyr ac allforwyr glo. Roedd gan y Cwmni ei byllau glo ei hun ac agorodd orsafoedd glo ledled y byd a chanolfannau ar bob llwybr llongau o bwys. Mae'r cofnodion yn cynnwys llyfrau cofnodion, gweithredoedd a chytundebau.

***Evan Thomas, Radcliffe and Co., 1882-1973***

**DETR**

Sefydlwyd y Cwmni ym 1881 gan Evan Thomas (o Aberporth) a Henry Radcliffe (o Ferthyr Tudful). Lleolwyd y Cwmni yn Dock Chambers, Bute Street, Caerdydd. Ar un adeg, roedd cynifer â 31 o gwmnïau un llong wedi cofrestru dan enw'r cwmni. Mae'r cofnodion yn cynnwys papurau ar sefydlu'r Cwmni, adeiladu llongau, cofnodion ariannol a chofnodion teuluol a phersonol.

***John Cory and Sons Ltd., 1884-1988***

Symudodd John Cory, y perchennog llongau i Gaerdydd o Padstow, Cernyw, ym 1872. Datblygodd y Cwmni a sefydlodd gyda'i deulu yng Nghaerdydd yn gyflym, o fod â 10 llong ym 1876 i 23 erbyn 1898. Dirywiodd yr elfen hon o'r busnes yn raddol, ac erbyn 1966 nid oedd y Cwmni yn berchen llongau, er ei fod wedi parhau i weithredu fel brocer llongau a chwmni teithio. Mae'r cofnodion yn cynnwys memoranda ac erthyglau'r cwmni, cofnodion, cofnodion ariannol, partneriaeth a chyfranddalwyr.

***Evan Reid Coal Co. Ltd., c 1890-1961***

**DER**

Daeth Charles Edward Evans i Gaerdydd ym 1879 i weithio i gwmni broceriaid llongau ac allforio glo lleol. Ym 1890, sefydlodd ei gwmni ei hun, Charles E. Evans Co, a ailsefydlodd ym 1901 fel Evans and Reid Cyf. Prif fusnes y cwmni oedd allforio glo a mewnfario coed pwell, gan arallgyfeirio i lwythi cyffredinol yn sgil y dirywiad yn y diwydiant glo wedi'r Ail Ryfel Byd. Roedd gan y Cwmni rwydwaith o gynrychiolwyr tramor a sawl swyddfa gangen ym Mhrydain. Roedd eu Prif Swyddfa yn 51 Sgwâr Mountstuart, Caerdydd yn ystod 1900-1920, ac yn Empire House, Sgwâr Mountstuart wedi hynny. Mae'r casgliad yn cynnwys memorandwm ac erthyglau'r cwmni, cofnodion ariannol, cofnodion gwerthu, yn ogystal â chofnodion ynglŷn â Strath Steamship Co. Cyf.

***Reardon Smith Line Ltd., 1902-1985***

**DRSL**

Sefydlodd y Capten William Reardon Smith fusnes Reardon Smith Line Cyf fel W.R. Smith and Son Cyf., yn 124 Bute Street, Caerdydd, a'r Instow Steamship Co. Cyf. yn Nociâu Caerdydd ym 1905. Roedd gan y Cwmni nifer o isgwmnïau a chwmnïau cysylltiedig. Roedd nifer y llongau wedi cynyddu i 39 erbyn 1922. Newidiodd enw'r cwmni i Reardon Smith Line Cyf. ym 1928 a pharhaodd i ehangu hyd at 1977. Arallgyfeiriodd i faes llogi llongau a chloddio am olew hefyd. Ym 1985, rhoddwyd y gorau i fasnachu ac aeth y cwmni yn fethdalwyr. Mae'r casgliad yn cynnwys cofnodion y prif Gwmni a'r isgwmnïau a chwmnïau cysylltiedig. Mae'n cynnwys cofnodion, adroddiadau blynyddol, erthyglau'r cwmni, cofnodion ariannol, cofnodion cyfranddalwyr, pensiynau a ffeiliau.

**Graig Shipping Co. Ltd./PLC, 1919-1992****DGR, DX469**

A'r cwmnïau cysylltiedig: Idwal Williams and Co., The Glynafon Shipping Co.Cyf., Garth Shipping Co. Cyf., a Lisvane Investment Co. Cyf. Sefydlodd Idwal Williams o Gaerdydd Graig Shipping Co. Cyf. ym 1919 gyda chyfarwyddwyr dau gwmni glo, cynhyrchydd plygiau tanio a chigydd llongau. Cafodd llawer o gofnodion y cwmnïau eu difetha neu eu difa gan dân yn swyddfeydd Graig ym Merthyr House, Dociau Caerdydd ym 1945. Mae'r casgliad yn cynnwys cofnodion, adroddiadau blynyddol, cyfnodolion, llyfrau cyfrifon a llyfrau cyfranddaliadau.

**Lles****Cymdeithas Gwneuthurwyr Hwyliau Caerdydd , 1893-1938****CLMS/4/1166**

Sefydlwyd y gymdeithas ym 1855 a daeth i ben ym 1938. Mae'r casgliad yn cynnwys llyfrau cofnodion, cofnodion ariannol, llyfrau cyfrannu, llyfrau rheolau a gohebiaeth.

**Ysbyty Frenhinol Hamadryad, 1886-1919****BC/HAM**

Cafodd ei adeiladu fel ysbyty i forwyr yn lle Llong Ysbyty'r Hamadryad ac i gofio Jiwbilî Diamwnt y Frenhines Fictoria. Fe'i cwblhawyd ym 1904 a'i agor yn ffurfiol ym 1905. Mae'r cofnodion yn cynnwys gweithredoedd, cofnodion, papurau tanysgrifio, cyfrifon, cynlluniau a ffotograffau.

**Cartref y Morwyr Caerdydd , 1862-1867****DXGC283/1**

Agorwyd Cartref y Morwyr yn Stuart Street, Caerdydd ym 1853. Mae'r copi hwn o'r llyfr cyfrifon yn cynnwys cyfrifon derbyn arian llety morwyr, ac yn nodi enwau a graddfeydd y morwyr.

**Y Llynges****Casgliad Castell Fonmon****DF Vols. 16-22**

Papurau llyngesol Capten Oliver J. Jones, 1862-1870. Y Llynges oedd bywyd Oliver John Jones (1813-1878). Mae'r dogfennau hyn yn ein galluogi i ddilyn ei yrfa fel Capten ar arfordir Prydain, yn India'r Gorllewin, ac fel Comodor ym moroedd Tsieina. Llwyddodd i godi i fod yn Ôl-Lyngesydd. Mae'r cofnodion yn cynnwys apwyntiadau, gorchmynion, adroddiadau, gohebiaeth, ac adroddiadau am brofiadau.

**Cofnodion mewn manau eraill****Yr Archifau Cenedlaethol**

Mae'r cofnodion sy'n cael eu cadw gan yr Archifau Cenedlaethol yn cynnwys cofnodion sy'n ymwneud â mewnfudo ac allfudo ar y môr; cofnodion y Llynges a'r Môr-filwyr Brenhinol, cofnodion gwasanaethau ataliol a gwyllo'r glannau; a chofnodion morwyr masnachol.

**Amgueddfa Cymru**

Mae casgliadau morwrol Amgueddfa Cymru yn cynnwys amrywiaeth eang o eitemau, yn amrywio o nodwydd gwneuthurwr hwyliau i gwch achub maint llawn. Mae ganddynt dros 150 o fodolau o longau a fu'n hwylio ar arfordir Cymru dros y ddwy ganrif ddiwethaf. Mae yna gasgliad o ddarluniau o longau hefyd.